# Y diweddaraf am eich pensiwn

# Cylchlythyr i aelodau gweithgar

**Mai 2026**

## Croeso a chyflwyniad gan Mark Engelbretson

Croeso i rifyn Mai 2026 o'ch cylchlythyr cynllun pensiwn i aelodau gweithgar. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, gwelais nifer o brosiectau pwysig yn symud ymlaen a byddaf yn ymhelaethu amdanynt yn y cylchlythyr. Byddwch hefyd yn cael gwybod y diweddaraf am sefyllfa ariannu'r Cynllun, sut mae'r asedau'n cael eu buddsoddi a chamau ymarferol i chi eu cymryd i gadw mewn cysylltiad â'ch buddion a chynllunio ymlaen llaw. Byddwn hefyd yn rhannu â chi sut rydym yn buddsoddi'n gyfrifol.



Mark Engelbretson
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

## Y diweddaraf am ein lefel ariannu

Bob tair blynedd, rhaid i'r Ymddiriedolwyr ymgymryd â phrisiad llawn o asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae'n sicrhau bod gan y Cynllun ddigon o arian i dalu buddion aelodau nawr ac yn y dyfodol.

Digwyddodd y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2025. Dangosodd fod y Cynllun yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannu gref. Mae'n cael ei ariannu ar lefel o 127% ar set ofalus o ragdybiaethau. Mae'n golygu bod asedau'r Cynllun yn 27% yn uwch na gwerth rhwymedigaethau'r Cynllun i aelodau yn y dyfodol.

Er 31 Mawrth 2025, mae cynnydd cyson mewn cynnyrch bondiau'r llywodraeth a pherfformiad cryf buddsoddiadau'r Cynllun sy'n gwella lefel ariannu'r Cynllun. Amcangyfrifodd Actiwari'r Cynllun ei fod wedi'i ariannu ar lefel o 142% ar yr un set o ragdybiaethau gofalus.

Hyd yn oed ar y sail 'solfedd' sy'n llawer mwy gofalus (sy'n adlewyrchu beth y byddai cwmni yswiriant yn ei godi i ymgymryd â rhwymedigaethau'r Cynllun), amcangyfrifir ein bod wedi cael ein hariannu ar lefel o 129% yn ôl yr olwg ddiweddaraf. I raddau mae o ddiddordeb damcaniaethol yn unig gan y bydd y prif gyflogwyr sy'n noddi'r Cynllun yn parhau i'w gefnogi gan gronni buddion parhaus a pharhau'n agored i bobl newydd sydd am ymuno.

## Buddsoddi ein hasedau

**Sut mae'r Cynllun yn cael ei fuddsoddi?**

Mae asedau'n cael eu prisio oddeutu £265 miliwn (ar 31 Mawrth 2026).

Mae asedau'r cynllun yn werth tua **£265miliwn**

Gwaith yr Ymddiriedolwyr yw buddsoddi asedau'r Cynllun mewn ffordd gyfrifol ac ariannol effeithiol. Rydym yn buddsoddi'n ddoeth gan gydbwyso enillion da yn erbyn y peryglon sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o fuddsoddiad wrth gydnabod natur hirdymor rhwymedigaethau'r Cynllun. Hyd yn oed heb unrhyw aelodau newydd, byddai talu pensiynau'r aelodau presennol yn cymryd rhagor na 80 mlynedd, gyda'r taliadau'n codi am flynyddoedd lawer cyn gostwng yn raddol. Os yw'r Cynllun yn parhau i fod yn agored i bobl newydd a bod buddion yn parhau i gronni ar gyfer aelodau presennol, disgwylir i'r Cynllun aros ar waith am y dyfodol rhagweladwy. Mae'r gorwel yn bell felly o ran pensiynau. Ond mae'n caniatáu i'r Cynllun fuddsoddi mewn asedau mwy anhylif sy'n aml yn cynnig gwell enillion ar gyfer lefel benodol o berygl.

Un o brif flaenoriaethau'r Ymddiriedolwyr yw buddsoddi'n gyfrifol. Rydym yn ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu sy'n gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ariannol yn y tymor byr, canolig neu hir.

Yn 2020, roeddem wedi fframio ein '**Gweledigaeth i Strategaeth a Fuddsoddwyd yn Gyfrifol**' gyda'r datganiad uchelgais canlynol

> "Byddwn yn buddsoddi gan ystyried cynaliadwyedd yn rhan o reoli'r Cynllun a sicrhau bod yr asedau a fuddsoddir yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddyfodol mwy cynaliadwy"

Bu'r weledigaeth yn rhan annatod o ddatblygu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun. Rydym wedi ystyried pob un o asedau'r Cynllun yn eu tro i alinio â'r egwyddorion yma:

1. ymgorffori cynaliadwyedd wrth benodi'r rheolwyr buddsoddi a chraffu'n barhaus arnynt
2. meddwl am sut mae buddsoddi'r asedau a natur y mandadau ar eu cyfer
3. mesur cyfraniad buddsoddiadau'r Cynllun at ganlyniadau mwy cynaliadwy

Yn 2024 roeddem wedi nodi themâu stiwardiaeth â blaenoriaeth i ganolbwyntio ar ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi'r Cynllun:

cyflawni sero net, gyda ffocws penodol ar:
- newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio diwydiannau trwm
- bioamrywiaeth a mynd i'r afael â datgoedwigo

ymarferion cyflogaeth da, gyda ffocws penodol ar:
- gwaith ac ymarferion cyflogaeth da
- amrywiaeth a chynhwysiant yn enwedig yng nghyd-destun marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg

datgeliadau o safon wrth ddarparu data ariannol am faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn adolygu ein dull o fuddsoddi cyfrifol a themâu'n stiwardiaeth â blaenoriaeth. Mae er mwyn sicrhau bod y dull yn parhau'n briodol, dangos yr arfer gorau, cyd-fynd â safbwyntiau'r Ymddiriedolwyr ac, lle bo'n briodol, dynnu ar farn yr aelodau.

Eleni, cyhoeddwyd Cwestiynau Cyffredin i aelodau sy'n dangos yn gliriach sut mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi a'r dull o fuddsoddi cyfrifol. Mae rhagor o fanylion am y strategaeth fuddsoddi hefyd ar gael i'r cyhoedd yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

Y llynedd, cafodd y Cynllun ei dderbyn unwaith eto fel llofnodwr Cod Stiwardiaeth Brydeinig y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r rhan fwyaf o lofnodwyr yn gyrff ariannol canolig a mawr ac rydym ni'n parhau'n un o'r lleiaf. Mae'r ffaith ein bod yn parhau i fodloni'r safonau stiwardiaeth uchel y Cod Stiwardiaeth Brydeinig yn adlewyrchu ein hymrwymiad cryf i stiwardiaeth effeithiol a buddsoddiad cyfrifol. Byddwn yn ceisio cynnal ein statws llofnodwr drwy barhau i wneud gwelliannau cynyddol i'n stiwardiaeth o asedau'r Cynllun.

## Cysylltu â'ch pensiwn ar-lein gyda PRISM

PRISM yw ein porth ar-lein diogel i aelodau lle mae modd cael gafael ar wybodaeth am eich buddion yn y Cynllun. Rydych yn gallu darllen y newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf, dysgu rhagor am sut mae'r Cynllun yn gweithio a gweld a diweddaru eich manylion personol.

Ers lansio PRISM y llynedd, mae llawer o aelodau eisoes wedi cofrestru. Rydym yn eich annog i wneud yr un peth. Mae hefyd yn gyfle da i wirio bod eich manylion yn gyfredol ac enwebu unrhyw fuddiolwyr i gael hawl i fuddion marw a phensiynau dibynnol o'r Cynllun.

I ddechrau, bydd angen ichi gofrestru eich manylion a llenwi proses ddiogelwch fer. Ar ôl ichi fewngofnodi, byddwch yn gallu gweld rhagamcan o'ch pensiwn wrth ymddeol o'r Cynllun ac ystod o wybodaeth arall.

**Ydy'ch mynegiant o ddymuniad yn gyfredol?** Gan ddefnyddio PRISM neu drwy gysylltu â gweinyddwyr y Cynllun, gallwch ddiweddaru eich mynegiant o ddymuniad i ofyn am bwy byddai'n gallu bod â hawl i fuddion ar ôl ichi farw.

### Ewch i

www.artscouncilplan.co.uk
i fewngofnodi neu gofrestru neu sganiwch y cod QR.

**Os cewch unrhyw broblemau mewngofnodi, cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion isod.**

**Cyfeiriad:**
**Gweinyddwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau**
Hymans Robertson,
20 Stryd Waterloo, Glaschu/Glasgow, G2 6DB

**Ffôn:** 0141 566 7656
**E-bost:** artscouncil@hymans.co.uk

## Cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad

Efallai y bydd ymddeol yn teimlo'n bell i ffwrdd ond nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau cynllunio'r dyfodol. Mae 'MOT Canol Oed' y Llywodraeth yn offeryn ar-lein ymarferol sy'n rhad ac am ddim i'ch helpu i lunio eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran eich gwaith, eich iechyd a'ch arian.

Mae'r MOT ar gyfer pobl yn eu 40au, 50au a 60au ond bydd unrhyw un yn gallu ei ddefnyddio. Dyma ragor amdano: moneyhelper.org.uk/midlife-mot.

Mae'n werth gwybod hefyd fod oed isaf y pensiwn arferol (yr oed cynharaf y bydd y rhan fwyaf ohonom yn gallu cael mynediad at ein pensiwn) i fod i gynyddu o 55 i 57 o 6 Ebrill 2028. Felly os ydych yn meddwl am gymryd buddion tua'r adeg yna, efallai yr hoffech ystyried ei effaith fel rhan o'ch cynllunio ymddeol.

## Dangosfwrdd pensiynau

Eleni rydym wedi parhau i symud ymlaen ag un o fentrau pwysicaf y diwydiant pensiwn – cyflwyno'r Dangosfwrdd Pensiynau. Gyda chefnogaeth y llywodraeth, mae'r prosiect yn caniatáu i bobl nad ydynt eto wedi ymddeol gael un lle i gael mynediad diogel at wybodaeth am eu pensiwn gweithle, gwladwriaethol a phreifat. Bydd yn eich helpu i ddod o hyd i bensiynau coll a gweld rhai presennol nad ydych wedi'u hawlio eto. Er mwyn cael y cyfle gorau o allu gweld eich holl wybodaeth pensiwn ar ôl cyflwyno'r Dangosfwrdd Pensiynau, gwnewch yn siŵr bod eich holl gynlluniau pensiwn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae modd gwirio a diweddaru'r data personol sydd gennym ar eich cyfer drwy gofrestru â PRISM neu drwy gysylltu â gweinyddwyr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion uchod.

## Sgamiau pensiwn

Mae sgamiau pensiwn yn gallu swnio'n argyhoeddiadol a chael canlyniadau difrifol. Yn aml mae twyllwyr yn targedu pobl sy'n agosáu at oed ymddeol neu sydd eisoes wedi ymddeol. Bob blwyddyn mae twyllwyr yn dwyn miliynau o bunnoedd. Efallai y byddant yn cysylltu â chi'n annisgwyl drwy'r ffôn, e-bost, neges destun neu'r cyfryngau cymdeithasol gan ymgyflwyno'n broffesiynol a pharchus. Weithiau maent yn honni dod o'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol!

**Ymhlith y sgamiau cyffredin mae cynnig**

- 'adolygu eich pensiwn am ddim',
- addo enillion uchel heb fawr o berygl neu
- gael mynediad i'ch pensiwn yn gynnar.

Os yw rhywbeth yn annisgwyl neu'n rhy dda i fod yn wir, oedwch cyn cytuno ag unrhyw beth. Peidiwch â rhannu manylion personol na llofnodi unrhyw beth ar unwaith. Peidiwch â chael eich rhuthro i drosglwyddo eich pensiwn. Bydd cymryd ychydig o amser i wirio â phwy rydych yn siarad yn diogelu'r buddion eich pensiwn.

**Nid aur popeth melyn!**

Mae canlyniadau twyll yn gallu bod yn drychinebus. Mae'n bosibl ichi golli eich holl bensiwn a chael bil treth ar ben hynny o hyd at 55%.

Dilynwch 4 cam allweddol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i amddiffyn eich hun: gwrthodwch gynigion annisgwyl, gwiriwch â phwy rydych yn siarad, peidiwch â chael eich rhuthro i wneud unrhyw beth a cheisiwch wybodaeth neu gyngor annibynnol. Am ragor o fanylion, ewch i'r canllawiau sgamiau pensiwn ar wefan y Cynllun.

# Rhestr wirio pensiynau

Bob blwyddyn mae'n werth gofyn ychydig o gwestiynau i chi eich hun y byddai'n gallu effeithio ar eich trefniadau pensiwn.

**Gofynnwch:**
Ydy fy manylion personol wedi newid? Er enghraifft, enw, rhif ffôn neu gyfeiriad newydd.

**Beth i'w wneud?**
Diweddarwch eich manylion ar-lein gan ddefnyddio ein gwefan pensiwn: www.artscouncilplan.co.uk neu cysylltwch â gweinyddwr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion yn y cylchlythyr.

**Gofynnwch:**
Ydw i am ddiweddaru fy mynegiant o ddymuniad sy'n dangos pwy fydd yn elwa pe bai unrhyw beth yn digwydd imi?

**Beth i'w wneud?**
Diweddarwch eich manylion ar-lein gan ddefnyddio ein gwefan pensiwn: www.artscouncilplan.co.uk neu cysylltwch â gweinyddwr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion yn y cylchlythyr.

**Gofynnwch:**
Ydw i'n agosáu at oed ymddeol ac am ystyried fy opsiynau?

**Beth i'w wneud?**
Ceisiwch gyngor ariannol annibynnol a chysylltwch â gweinyddwr y Cynllun os ydych eisiau gwybodaeth fel gwerth trosglwyddo neu ddyfynbris ymddeol. Mae rhestr o gynghorwyr ariannol annibynnol lleol ichi yma: www.unbiased.co.uk

Neu gofynnwch am ddyfynbris ar-lein drwy'n gwefan pensiwn: www.artscouncilplan.co.uk

## A wyddoch chi?

Nid ydym ni na chynghorwyr y Cynllun yn gallu rhoi cyngor ariannol ichi. Dyna'r rheswm ichi orfod siarad â chynghorydd ariannol annibynnol.

**Os ydych yn ystyried gadael y Cynllun am unrhyw reswm neu am newid eich trefniadau pensiwn, dylech gael cyngor yn gyntaf. Dyma restr o gynghorwyr ariannol annibynnol lleol ichi: www.unbiased.co.uk.**

## Am ragor o wybodaeth

Os hoffech wybod ragor am unrhyw beth yn y datganiad, cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion yma:

Cyfeiriad:
**Gweinyddwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau**
Hymans Robertson
20 Stryd Waterloo
Glaschu/Glasgow
G2 6DB

**Ffôn:** 0141 566 7656
**E-bost:** artscouncil@hymans.co.uk

Ymddiriedolwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994)

Mehefin 2026